Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penbre
# Heol Ashburnham
# Penbre
# Sir Gaerfyrddin
# SA16 0TP

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/08/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Penbre yng nghanol pentref Penbre, bum milltir i'r gorllewin o Lanelli.

Ar hyn o bryd, mae 245 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Mae naw dosbarth yn yr ysgol. Mae nifer y dosbarthiadau meithrin wedi cynyddu o un i dri i ddarparu ar gyfer cynnydd yn nifer y disgyblion.

Mae gan tua 28% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r canran wedi cynyddu tua 5% yn ddiweddar ac mae ychydig yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae gan ddau ddeg wyth y cant o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae pedwar o ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae'r holl ddisgyblion yn siarad Saesneg gartref ac nid oes un disgybl yn siarad Cymraeg fel mamiaith.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2006. Fe wnaeth pennaeth a dirprwy bennaeth newydd ymgymryd â'u swyddi yn 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Penbre yn 2011-2012 yw £3,162. Uchafswm y gyllideb fesul disgybl yn ysgolion Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r isafswm yw £3,114. Mae Ysgol Gynradd Penbre yn safle 97 o blith 110 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae safonau cyrhaeddiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion symbyliad da;
- mae gan ddisgyblion ymdeimlad cryf o barch a gofal a phryder tuag at eraill;
- mae'r addysgu o ansawdd da; ac
- mae partneriaethau gyda rhieni a'r gymuned leol yn gryf.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan yr uwch dîm rheoli weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol yn y dyfodol, y mae'r holl staff yn ei rhannu;
- caiff data ei ddadansoddi'n drylwyr a'i ddefnyddio'n effeithiol i nodi meysydd i'w gwella;
- mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda; ac
- mae'r ysgol yn mynd ati'n weithgar i gael barn disgyblion, rhieni a staff, a gweithredu arni.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 ddatblygu mwy o gysondeb yn safonau disgyblion mewn ysgrifennu ar draws meysydd pwnc yng nghyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau bod athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith; a

A3 sicrhau bod yr holl fonitro yn canolbwyntio'n glir ar safonau gwaith disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae safonau cyrhaeddiad yn Ysgol Gynradd Penbre yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn dda iawn ac maent yn esbonio'u syniadau yn glir i eraill. Maent yn gwneud cynnydd priodol mewn dysgu newydd. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac mae ganddynt fedrau siarad da yn gyffredinol.

Mae cyflwyno rhaglen ffoneg yn ddiweddar yn helpu i wella ymwybyddiaeth ffonolegol a medrau sillafu disgyblion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gymwys ar gyfer eu hoedran ac mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio mynegiant a goslef briodol pan fyddant yn darllen yn uchel. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod dda o lyfrau a gallant esbonio'r rhesymau dros eu dewisiadau yn glir.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae safonau ysgrifennu disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, mae safonau ysgrifennu ar draws cyfnod allweddol 2 yn amrywio'n ormodol o ddosbarth i ddosbarth. Serch hynny, erbyn 11 oed, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu barn yn dda yn ysgrifenedig. Maent yn ysgrifennu'n gymwys at amrywiaeth o ddibenion ac amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar draws ystod o bynciau. Erbyn y cyfnod hwn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda llawysgrifen gysylltiedig ac maent yn cyflwyno ac yn strwythuro eu gwaith ysgrifenedig yn dda. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio medrau llythrennedd yn effeithiol ar draws ystod o feysydd y cwricwlwm.

Mae safonau mewn Cymraeg yn dda at ei gilydd. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ddealltwriaeth dda o Gymraeg syml. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall disgyblion ddeall brawddegau syml a chymhleth mewn Cymraeg yn y presennol a'r gorffennol. Maent yn mynegi eu hunain yn dda ar lafar ac ar ffurf ysgrifenedig mewn brawddegau syml. Mae ychydig ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda mewn Cymraeg mwy cymhleth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen Cymraeg yn uchel gydag ynganiad a goslef dda.

Erbyn saith oed, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn dda o gymharu â chyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill, yr awdurdod lleol ac ar draws Cymru. Mae ychydig ddisgyblion yn cyflawni'n uwch (lefel 3) na'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Bu tuedd am i fyny mewn cyrhaeddiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gan ddisgyblion 11 oed dros y tair blynedd diwethaf. Mae cyrhaeddiad disgyblion mewn Saesneg a mathemateg ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) uwchlaw'r cyfartaledd o gymharu â chyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru. Fodd bynnag, bu tuedd am i lawr

mewn cyrhaeddiad ar lefel 5 dros y cyfnod hwn. I'r gwrthwyneb, mae canran y disgyblion sy'n ennill y lefel uwch (lefel 5) mewn gwyddoniaeth wedi gwella'n sylweddol. Mae hwn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion mewn ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol ac ar draws Cymru.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn ôl cyrhaeddiad blaenorol a thargedau personol a gwnânt gynnydd da mewn perthynas â'u gallu. Mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da ac yn cyrraedd eu targedau'n dda mewn perthynas â'u gallu. Yn 2010-2011, ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2, fe wnaeth bechgyn berfformio'n well na merched mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion symbyliad da iawn ac maent yn chwarae rhan lawn mewn gwersi.

Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at gadw'n iach a diogel a deallant bwysigrwydd bwyta diet iach a gwneud ymarfer corff. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol ag unrhyw fwlio drwy ystod o strategaethau sy'n cynnwys ffocws cryf ar hawliau a chyfrifoldebau plant.

Mae presenoldeb yn dda yn gyson ac mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd, eu hathrawon ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae disgyblion yn rhoi adborth defnyddiol ar ystod o faterion i'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheolaidd drwy lenwi holiaduron a thrwy farn cyngor yr ysgol. Mae gan ddisgyblion ymdeimlad cryf o barch a gofal a phryder tuag at eraill. Mae aelodau'r grŵp Llysgenhadon Ifanc yn fodelau effeithiol o ymddygiad ar gyfer disgyblion eraill yn yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod ysgogol o gyfleoedd ar gyfer dysgu gan ddisgyblion. Mae cynllunio da ar waith i sicrhau ymdriniaeth a medrau ar draws y cwricwlwm, ond ni chaiff ei gymhwyso'n gyson ym mhob dosbarth ar draws cyfnod allweddol 2.

Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn cynnig cyfleoedd ychwanegol da i ddisgyblion o bob oedran a gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gwaith tîm ac i gynrychioli'r ysgol yn effeithiol yn y gymuned.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf. Mae gan yr holl ddisgyblion ymdeimlad da o ddiwylliant Cymru ac mae'r dimensiwn Cymreig yn cael ei hyrwyddo'n dda mewn dosbarthiadau trwy addysgu traws gwricwlaidd, yn enwedig mewn celf, cerddoriaeth a daearyddiaeth. Mae rhaglen sy'n annog disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg yn aml drwy gydol y diwrnod yn effeithiol o ran helpu i ddatblygu iaith lafar disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy yn dda trwy waith ei phwyllgorau eco a masnach deg. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu cystal. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau a chyfrifoldebau'r unigolyn. Mae pob dosbarth yn paratoi ei siarter hawliau ei hun. Caiff y rhain eu harddangos mewn lle amlwg mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol ac mae disgyblion yn cyfeirio atynt yn aml.

**Addysgu: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gyfredol, dda ac maent yn cynllunio'n effeithiol, gydag amcanion dysgu clir. Mae cyflymder da i lawer o wersi ac mae staff yn ymyrryd ar adegau priodol a chynigiant gymorth effeithiol i ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Mae athrawon yn gweithio'n effeithiol gyda staff cymorth i ddatblygu dysgu gan ddisgyblion. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn annog medrau meddwl annibynnol disgyblion yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig ddosbarthiadau, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall eu disgyblion ei gyflawni ac nid ydynt yn herio'u disgyblion o bob gallu yn ddigon effeithiol. Mewn ychydig achosion, mae athrawon yn defnyddio Cymraeg a Saesneg yn effeithiol iawn mewn gwersi i wella galluoedd dwyieithog disgyblion.

Ym mwyafrif y dosbarthiadau ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain yn ôl yr amcan dysgu sy'n cael ei osod gan yr athro. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi adborth adeiladol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wneud yn dda. Fodd bynnag, nid yw sylwadau athrawon bob amser yn rhoi digon o wybodaeth i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Mae gan yr ysgol broses glir a systematig ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio deilliannau'n dda i olrhain cynnydd grwpiau o ddisgyblion, yn enwedig mewn grwpiau ymyrryd a grwpiau cymorth.

Mae'r ysgol yn rhoi adroddiadau addysgiadol i rieni. Fodd bynnag, nid ydynt eto'n cynnwys targedau ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac, o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae ystod eang o bolisïau priodol ar waith ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles disgyblion ac i annog disgyblion i gymryd rhan yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Mae staff yn monitro lles disgyblion yn briodol ac yn gweithredu'n gyflym ac yn sensitif mewn ymateb i bryderon. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda iawn gydag asiantaethau arbenigol er budd disgyblion. Mae trefniadau nodi clir ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau addysg unigol hwylus i blant yn rhoi targedau clir i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i wella'u dysgu. Mae staff yn adolygu ac yn arfarnu cynlluniau'n rheolaidd ac yn eu diweddaru nhw ar y cyd â rhieni. Mae systemau a gyflwynwyd yn ddiweddar yn nodi disgyblion mwy abl a dawnus yn effeithiol. O ganlyniad i hyn, mae darpariaeth well i'r disgyblion hyn.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae arweinwyr wedi ymrwymo i greu amgylchedd hapus, croesawgar a chefnogol sy'n cynnwys pob disgybl yn gyfartal. Mae polisïau, cwricwlwm ac arferion yr ysgol yn effeithiol wrth sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael triniaeth deg. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o faterion cydraddoldeb a'u cyfrifoldeb i drin pawb gyda pharch.

Caiff safle ac adeilad yr ysgol eu defnyddio'n dda at anghenion y disgyblion. Mae byrddau arddangos yn lliwgar ac yn symbylol yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am weithgareddau'r ysgol ynghyd â chyflawniadau disgyblion. Mae'r ardaloedd dysgu allanol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi'u datblygu'n dda. Hefyd, mae'r ysgol wedi datblygu ardal ddysgu yn yr awyr agored sy'n addas i ddisgyblion iau cyfnod allweddol 2. Mae disgyblion wedi cyfrannu'n llawn at ddatblygiad yr ardal chwarae awyr agored. Erbyn hyn, mae'n cynnig ystod dda o weithgareddau chwarae i ddisgyblion. Mae holl ardaloedd yr ysgol yn lân a chânt eu cynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol, ac mae'n ei chyfleu'n dda i'r holl staff ac maent yn rhannu diben a gwerthoedd cyffredin. Mae'r dirprwy bennaeth yn rhoi cymorth da i'r pennaeth. Mae gan yr uwch dîm arwain ymwybyddiaeth gynyddol o'u cyfrifoldebau ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymryd rhan yn ddigon llawn eto mewn barnu safonau ar draws yr ysgol.

Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swydd priodol sy'n cyfateb yn dda i'w rolau. Mae staff yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd sydd, yn gyffredinol, yn ysgogi pwyntiau gweithredu sy'n gysylltiedig â gwella'r ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn codi ymwybyddiaeth staff yn effeithiol o flaenoriaethau strategol a'u rôl o ran helpu'r ysgol i gyflawni ei blaenoriaethau.

Mae gan y corff llywodraethol bwyllgorau priodol sy'n monitro gwaith yr ysgol a'i chynnydd yn ôl targedau datblygu'r ysgol yn dda. Mae llywodraethwyr yn deall data perfformiad yr ysgol ac yn gwybod sut mae'n cymharu â data perfformiad ysgolion tebyg eraill. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i herio a chefnogi'r ysgol yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus ac aethpwyd i'r afael â thanberfformiad bechgyn mewn darllen yn briodol trwy ddarpariaeth ac adnoddau gwell. Mae ysgolion iach ac ysgolion eco yn elfennau craidd o'r cwricwlwm ac maent wedi'u hymgorffori'n dda mewn llawer o bynciau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol amserlen realistig ar waith i arfarnu sawl agwedd ar ei gwaith ac mae gan arweinwyr ddarlun cywir yn gyffredinol o gryfderau a meysydd y mae angen eu gwella.

Mae'r ysgol yn ceisio barn rhieni a disgyblion ac mae'n ymateb yn dda i'w hawgrymiadau ynghylch gwella. Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn dadansoddi data disgyblion yn effeithiol a defnyddiant y wybodaeth yn briodol i bennu meysydd i'w gwella. Mae staff uwch yn arsylwi gwersi yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae gormod o weithgareddau monitro yn canolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth yn hytrach nag ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Mae gan gynllun datblygu'r ysgol nifer hwylus o dargedau ar gyfer gwella sy'n cysylltu'n dda â'r adroddiad hunanarfarnu. Mae amserlenni a chyfrifoldebau yn glir, ond mewn ychydig enghreifftiau, mae meini prawf llwyddiant yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn hawdd eu mesur.

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae cysylltiad athrawon â chymunedau dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar wella darpariaeth a safonau disgyblion, yn enwedig mewn ysgrifennu a lles. Mae staff yn gweithio'n dda gydag ysgolion lleol eraill ac o ganlyniad i hyn, mae mwy o rannu syniadau ac adnoddau. Yn yr ysgol, mae staff yn dysgu'n dda oddi wrth ei gilydd ac yn rhannu arbenigedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf ac effeithiol gyda rhieni a'r gymuned leol. Mae arweinwyr yn mynd rhagddynt i sicrhau partneriaethau newydd sy'n helpu i wella cyfleoedd i ddisgyblion. Er enghraifft, mae symud llyfrgell yr ysgol yn ddiweddar i'r llyfrgell gymunedol wedi codi proffil darllen yn dda. Mae'r bartneriaeth gyda busnes lleol a sefydliad ariannol wedi gwella medrau rhifedd disgyblion a'u dealltwriaeth o reolaeth ariannol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio effeithiol ac arferion gweithio ar y cyd gyda'i hysgol uwchradd fwydo leol. Ar draws y clwstwr o ysgolion cynradd lleol, mae staff yn cydweithio'n dda i gynllunio dull parhaus a chyson o addysgu a darpariaeth i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol. Mae gweithdrefnau safoni a chymedroli gydag ysgolion cynradd lleol eraill yn gadarn a cheir asesiadau cywir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 o ganlyniad i'r rhain.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn dosbarthu staff addysgu a staff cymorth yn addas er mwyn bodloni anghenion disgyblion a'r cwricwlwm. Caiff amser cynllunio, paratoi ac asesu ei drefnu'n effeithlon ac mae'n effeithio'n arbennig o dda ar safonau disgyblion mewn Cymraeg ac addysg gorfforol.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cynnal ei hadeiladau'n dda. Mae'r ysgol wedi cychwyn rhaglen ailwampio yn ddiweddar sydd wedi arwain at welliannau yn yr adeiladau mewnol ac allanol. Er enghraifft, mae ffensio newydd wedi gwella diogelwch y safle.

Mae prynu offer chwarae mawr ar gyfer yr awyr agored a llwyfannau bob tywydd wedi gwella'r cyfleoedd i bob disgybl ddatblygu'n greadigol ac yn gorfforol.

Mae'r ysgol wedi addasu ei phenderfyniadau gwario yng ngoleuni cynnydd yn nifer y disgyblion.  Mae gan arweinwyr gynlluniau ariannol cadarn, wedi'u cysylltu â blaenoriaethau'r ysgol, i leihau eu cyllideb dros ben.

Gan fod disgyblion yn cyflawni safonau da ac mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau'n effeithiol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwebaeth ar ddata perfformiad**

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael y lefel ddisgwyliedig (Lefel 2) mewn Saesneg. Er y bu tuedd anwadal dros dair blynedd, mae cyrhaeddiad disgyblion uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a chyfartaledd cenedlaethol Cymru. Yn 2010-2011, roedd cyrhaeddiad disgyblion ar lefel 2 (92%) uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion mewn ysgolion tebyg (84%), cyfartaledd yr awdurdod lleol (82%) a chyfartaledd cenedlaethol Cymru (84%). Ar lefel 3, fe wnaeth cyrhaeddiad disgyblion wella o gymharu â lefelau'r flwyddyn flaenorol, ac roedd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan. Yn 2010-2011, fe wnaeth cyrhaeddiad disgyblion mewn darllen, llefaredd ac ysgrifennu wella ar lefel 2, ond roedd tuedd am i lawr mewn ysgrifennu ar lefel 3.

Mewn mathemateg, mae cyrhaeddiad disgyblion wedi gwella yn 2010-2011 gyda phob disgybl yn ennill lefel 2. Fodd bynnag, er bod y deilliannau uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan, bu ychydig o duedd am i lawr dros gyfnod o dair blynedd ar lefel 3.

Mewn gwyddoniaeth, bu ychydig o duedd am i lawr dros dair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy'n caffael lefel 2. Serch hynny, yn 2010-2011, roedd cyrhaeddiad disgyblion uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan.

Bu tuedd am i fyny yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn 2010-2011, roedd cyrhaeddiad disgyblion mewn Saesneg uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru. Mewn mathemateg, mae cyrhaeddiad disgyblion ar lefel 4 yn dangos tuedd am i fyny gyda gwelliant sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chyfartaledd yn 2010-2011 sydd uwchlaw cyfartaleddau ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mewn gwyddoniaeth, mae cyrhaeddiad disgyblion ar lefel 4 yn dangos tuedd sy'n gwella dros gyfnod o dair blynedd gyda deilliannau uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru yn 2010-2011.

Ar lefel 5, mae cyrhaeddiad disgyblion yn dangos tuedd am i lawr mewn Saesneg a mathemateg er ei fod yn parhau uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru. Fodd bynnag, bu tuedd am i fyny mewn gwyddoniaeth.

Mae merched wedi tueddu i wneud yn well na bechgyn mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ond fe wnaeth bechgyn yn well na merched y llynedd. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn gofal a disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn y grwpiau hyn.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwodd cant a phymtheg o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yr holiadur. Dywed yr holl ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r farn bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio ac mae pob un ohonynt yn gwybod pwy i siarad â nhw os ydynt yn teimlo'n bryderus neu'n gofidio. Mae'r holl ddisgyblion o'r farn bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach a bod cyfleoedd i wneud ymarfer corff. Mae'r rhan fwyaf o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod eu hathrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae'r holl ddisgyblion yn gwybod pwy i'w holi os oes angen help arnynt, ac mae'r rhan fwyaf o'r farn bod gwaith cartref yn eu helpu i wella'u gwaith yn yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'u bod yn cael digon o lyfrau ac offer. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser egwyl ac yn y dosbarth a'u bod yn gallu canolbwyntio ar eu gwaith.

Mae ymatebion disgyblion i bron pob cwestiwn yn yr holiadur yn adlewyrchu gradd uwch o hyder yn eu hysgol a boddhad â'u hysgol nag ymatebion disgyblion mewn ysgolion eraill yng Nghymru yn gyffredinol.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd pedwar deg un rhiant/gwarcheidwad yr holiadur ac mae bron pob un ohonynt yn gadarnhaol iawn ynghylch eu profiad o'r ysgol ac maent o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda yn yr ysgol a bod eu plentyn yn hapus yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod yr addysgu yn dda, bod disgwyliadau uchel gan athrawon o ddisgyblion a bod disgyblion yn cael gwaith cartref priodol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hapus bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol ac yn cael ei drin gyda pharch. Mae'r rhan fwyaf yn hapus bod disgyblion yn cael eu hannog i fwyta'n dda a gwneud ymarfer corff fel rhan o ffordd iach o fyw. Mae'r rhan fwyaf yn hapus bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol pan fo'i angen a'u bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Mae'r rhan fwyaf yn hapus ynghylch mynd at yr ysgol os oes problem ac mae'r mwyafrif yn deall ble i ddod o hyd i'r weithdrefn gwyno a'i defnyddio. Mae'r rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddatblygu'n dda a bod yn barod i symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Mae mwyafrif y rhieni/gwarcheidwaid o'r farn bod ystod dda o weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion.

Mae ymatebion y rhieni i'r holiadur yn adlewyrchu gradd uchel iawn o foddhad â'r ysgol o gymharu â boddhad rhieni ag ysgolion eraill yng Nghymru yn gyffredinol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Penny Lewis | Arolygydd Cofnodol |
| Liz Miles | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Damon McGarvie | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Jacob (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.